OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 831

# Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2011

**Taliadau uniongyrchol o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001**

**9.**—(1) Rhaid i'r awdurdod perthnasol gymryd y camau ym mharagraff (2) cyn y caiff fodloni ei hunan ei bod yn briodol gwneud taliad o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001 i berson addas ("S") er mwyn i S sicrhau darpariaeth o wasanaeth perthnasol i berson sy'n dod o fewn y disgrifiad a ragnodir gan reoliad 4 ("P").

(2) Y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw fod rhaid i'r awdurdod cyfrifol—

(a) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol a phriodol, ymgynghori â'r canlynol a chymryd eu safbwyntiau i ystyriaeth—

(i) unrhyw un a enwir gan P fel rhywun i ymgynghori ag ef ynglŷn ag a ddylid gwneud taliad i S er mwyn sicrhau darpariaeth o wasanaeth perthnasol i P, neu ynglŷn â materion o'r math hwnnw,

(ii) unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am P neu sydd â diddordeb yn lles P, a

(iii) unrhyw gynrychiolydd neu ladmerydd i P(**1**);

(b) i'r graddau y bo'n rhesymol ganfyddadwy, ystyried y canlynol—

(i) dymuniadau a theimladau P, ar y pryd ac yn y gorffennol (ac yn benodol, unrhyw ddatganiad ysgrifenedig perthnasol a wnaed gan P pan oedd galluedd ganddo, o fewn yr ystyr a roddir i "capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005(**2**), i gydsynio â gwneud taliadau uniongyrchol),

(ii) y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar benderfyniad P pe bai ganddo alluedd o'r fath, a

(iii) y ffactorau eraill y byddai P yn debygol o'u hystyried pe gallai wneud hynny;

(c) cael tystysgrif cofnod troseddol manylach a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**3**)—

(i) mewn perthynas ag S os yw S yn unigolyn ac nad yw'n berson a grybwyllir ym mharagraff (3) nac yn gyfaill i P sy'n ymwneud â darparu gofal i P, a

(ii) os yw S yn gorff corfforaethol neu'n corff anghorfforedig o bersonau, mewn perthynas â'r unigolyn a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol, ar ran y corff hwnnw, am reoli taliadau uniongyrchol P o ddydd i ddydd,

(**1**) *Gweler* adran 57(5B) o Ddeddf 2001 a rheoliad 6 am y diffiniad o "representative". *Gweler* adran 57(5C) o Ddeddf 2001 a rheoliad 7 am y diffiniad o "surrogate".

(**2**) 2005 p.9. *Gweler* adran 1 o'r Ddeddf honno am yr egwyddorion allweddol sy'n gymwys i benderfyniadau a gweithredoedd a wneir o dan y Ddeddf honno, gan gynnwys rhagdybio galluedd. *Gweler* adran 2 o'r Ddeddf honno am y diffiniad o berson sydd heb alluedd.

(**3**) 1997 p.50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15) a diwygiwyd hi gan baragraff 14 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47), gan paragraff 149 o Atodlen 16 i Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 (p.52), gan adrannau 79(1) a 80 of the Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007 (dsa 14) a chan O.S. 2009/203.

a rhaid i'r cyfryw dystysgrif gynnwys gwybodaeth am addasrwydd mewn perthynas ag oedolion hyglwyf (o fewn yr ystyr a roddir i "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno(**4**)).

(3) Y personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(c)(i) yw—

(a) priod neu bartner sifil P;

(b) person sy'n byw gyda P fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil P;

(c) person sy'n dwyn y berthynas ganlynol i P—

(i) rhiant neu riant-yng-nghyfraith,

(ii) mab neu ferch,

(iii) mab-yng-nghyfraith neu ferch-yng-nghyfraith,

(iv) llysfab neu lysferch,

(v) brawd neu chwaer,

(vi) modryb neu ewythr, neu

(vii) tad-cu neu fam-gu neu daid neu nain;

(ch) priod neu bartner sifil unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c); a

(d) person sy'n byw gydag unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r person hwnnw.

(4) Pan fo'r awdurdod cyfrifol, ar ôl cymryd y camau ym mharagraff (2), wedi ei fodloni ynglŷn â'r materion a restrir ym mharagraff (5)—

(a) caiff awdurdod cyfrifol, gyda'r cydsyniad sy'n ofynnol(**5**), wneud y cyfryw daliadau o dan adran 57(1A) o Ddeddf 2001 neu adran 17A(1) o Ddeddf 1989 ag a benderfynir yn unol â rheoliad 11 ("taliadau uniongyrchol") ("*direct payments*") i S er mwyn i S sicrhau ar gyfer P ddarpariaeth o wasanaeth perthnasol y mae P o dan rwymedigaeth i'w gael, o ganlyniad i ofyniad a osodwyd o dan ddeddfiad a grybwyllir yn Atodlen 2;

(b) caiff awdurdod cyfrifol, mewn achos pan fo amod mewn grym mewn perthynas â P, a osodwyd yn unol ag adran 42(2) neu 73(4) (gan gynnwys amod o'r fath a amrywiwyd yn unol ag adran 73(5) neu 75(3)) o Ddeddf 1983, neu pan fo P yn glaf a ryddhawyd yn amodol o dan adran 193(7) o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003, wneud, gyda'r cydsyniad sy'n ofynnol, taliadau uniongyrchol i S er mwyn i S sicrhau darpariaeth o wasanaeth perthnasol i P; ac

(c) ym mhob achos arall, rhaid i awdurdod cyfrifol, gyda'r cydsyniad sy'n ofynnol, wneud taliadau uniongyrchol i S er mwyn i S sicrhau darpariaeth o wasanaeth perthnasol i P.

(5) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (4) yw—

(a) y gellir diwallu angen P am y gwasanaeth perthnasol drwy sicrhau darpariaeth ohono gan ddefnyddio taliad uniongyrchol;

(b) bod S—

(i) wrth sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau y gwneir y taliad uniongyrchol mewn perthynas â hwy, yn gweithredu er budd bennaf P, o fewn yr ystyr a roddir i "best interests" gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**6**), a

(**4**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47); diwygiwyd is-adran (2)(d) gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p.26), adran 81(2) a (3)(h).

(**5**) *Gweler* adran 57(1B) o Ddeddf 2001 Act am y diffiniad o "requisite consent". Mewnosodwyd adran 57(1B) gan adran 146(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14).

(**6**) 2005 p.9. *Gweler* adran 4 o'r Ddeddf honno, ynglŷn ag egwyddor y budd pennaf.

(ii) yn ymddangos yn alluog i reoli taliad uniongyrchol ar ei ben ei hunan, neu gyda pha bynnag gymorth ag y gallai fod ar gael iddo, ac

(c) ei bod yn briodol, yn yr holl amgylchiadau, gwneud taliad uniongyrchol i S.